# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Adran Gwaith
a Phensiynau




Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth a ddewiswyd o **www.gov.uk** ar 9 Ebrill 2018. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar-lein. Mae'r daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig ac ni ddylid dibynnu arno fel datganiad llawn o'r gyfraith yn y maes hwn.




## Cynnwys



| | |
|---|---|
| Arolwg | 3 |
| Cymhwyster | 3 |
| Sut i wneud cais | 6 |
| Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 16 oed | 7 |


Argraffwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio'r testun a gymerwyd o **www.gov.uk** ar 9 Ebrill 2018.

© Hawlfraint y Goron.

ISBN 978-1-78659-044-2

**DWP14W** (Mai 2018)



**Codau QR**

Dyma godau bar sgwâr sy'n agor gwefan benodol, gan arbed i chi deipio cyfeiriadau gwe hir.

Gallwch gael ap am ddim i sganio codau QR ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar.

## Arolwg

www.gov.uk/disability-living-allowance-children

Gall Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant helpu gyda chost ychwanegol i ofalu am blentyn sydd:

- o dan 16 oed
- gyda phroblemau cerdded neu angen llawer mwy o help na phlentyn o'r un oedran nad yw'n anabl

Bydd angen iddynt gwrdd â'r holl ofynion cymhwysedd.

Mae'r gyfradd Lwfans Byw i'r Anabl rhwng £22.65 a £145.35 yr wythnos ac yn dibynnu ar y lefel o help sydd ei angen ar y plentyn. Efallai y bydd angen asesiad ar y plentyn i weithio allan pa help sydd ei angen arnynt.

### Cyfraddau Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant

Mae Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant yn fudd-dal di-dreth sy'n cynnwys 2 elfen (rhannau). Efallai y bydd y plentyn yn gymwys i gael un neu'r ddwy elfen.

### Elfen gofal

| Elfen gofal | Cyfradd wythnosol |
| --- | --- |
| Isaf | £22.65 |
| Canol | £57.30 |
| Uchaf | £85.60 |

### Elfen symudedd

| Elfen symudedd | Cyfradd wythnosol |
| --- | --- |
| Isaf | £22.65 |
| Uwch | £59.75 |

### Sut y telir Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant

Fel arfer, mae Lwfans Byw i'r Anabl yn cael ei dalu bob 4 wythnos.

Mae'r holl fudd-daliadau, pensiynau a lwfansau yn cael eu talu i mewn i gyfrif, e.e. eich cyfrif banc.

## Cymorth ychwanegol

Efallai y byddwch yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr os ydych yn treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu am blentyn sy’n cael y cyfradd ganol neu uwch o Lwfans Byw i’r Anabl.

# Cymhwyster

www.gov.uk/disability-living-allowance-children/eligibility

Fel arfer, i fod yn gymwys i gael Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer plant rhaid i’r plentyn:

- bod o dan 16 oed
- angen gofal ychwanegol neu gyda phroblemau cerdded
- bod ym Mhrydain Fawr, gwlad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) arall neu’r Swistir pan fyddwch yn hawlio - mae rhai eithriadau, e.e. aelodau teulu’r Lluoedd Arfog
- wedi byw ym Mhrydain Fawr am 2 allan o’r 3 blynedd diwethaf os dros 3 mlwydd oed
- bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel
- peidio â bod yn destun i reolaeth mewnfudo

Mae rhai eithriadau i’r amodau hyn os yw’r plentyn yn byw neu’n dod o wlad yr AEE arall neu’r Swistir.

Gallwch wneud cais am Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer plant os ydych mewn gwaith neu allan o waith.

## Plant o dan 3 oed

Mae’n rhaid i blentyn o dan 6 mis oed wedi bod yn byw ym Mhrydain Fawr am o leiaf 13 wythnos.

Mae’n rhaid i blentyn rhwng 6 mis a 3 oed wedi bod yn byw ym Mhrydain Fawr am o leiaf 26 o’r 156 wythnos diwethaf.

Nid yw’r rheolau ar breswylio fel arfer yn berthnasol os yw plentyn yn derfynol sâl.

## Cyflwr anabledd neu iechyd y plentyn

Mae'n rhaid i gyflwr anabledd neu iechyd y plentyn olygu un neu ddau o'r canlynol:

- bod angen llawer mwy o ofal na phlentyn o'r un oedran nad yw'n anabl
- bod ganddynt broblemau symud o gwmpas

Mae'n rhaid iddynt fod wedi cael yr anawsterau hyn am o leiaf 3 mis ac yn disgwyl iddynt bara am o leiaf 6 mis. Os ydynt yn derfynol sâl (hynny yw, ni ddisgwylir iddynt fyw am fwy na 6 mis), nid oes angen iddynt fod wedi cael yr anawsterau hyn am 3 mis.

## Elfen gofal

Mae'r gyfradd y mae'r plentyn yn ei gael yn dibynnu ar lefel y gofal sydd ei angen arnynt, er enghraifft:

- cyfradd isaf - help ar gyfer rhan o'r dydd neu'r nos
- cyfradd ganol - help neu oruchwyliaeth gyson yn ystod y dydd, goruchwyliaeth yn ystod y nos neu rywun i helpu tra eu bod ar ddialysis
- cyfradd uchaf - help neu oruchwyliaeth drwy gydol y dydd neu'r nos, neu eu bod yn derfynol sâl

## Elfen symudedd

Mae'r gyfradd y mae'r plentyn yn ei gael yn dibynnu ar y lefel o gymorth sydd ei angen arnynt i symud o gwmpas, er enghraifft:

- cyfradd isaf - gallant gerdded ond mae angen help a neu oruchwyliaeth pan fyddant yn yr awyr agored
- cyfradd uchaf - ni allant gerdded, ond yn gallu cerdded pellter byr heb anghysur difrifol, gallai fynd yn sâl iawn os byddant yn ceisio cerdded neu eu bod yn ddall, gyda nam difrifol ar y golwg

### Newid mewn amgylchiadau

Cysylltwch â'r llinell gymorth budd-daliadau anabledd cyn gynted ag y mae amgylchiadau'r plentyn yn newid. Gall hyn effeithio ar faint y maent yn ei gael, er enghraifft os yw eu hanabledd yn gwaethygu neu eu bod yn mynd dramor am driniaeth feddygol.

Ni fydd eu Lwfans Byw i'r Anabl fel arfer yn cael ei effeithio os byddant yn mynd:

- i gartref gofal awdurdod lleol am lai na 28 diwrnod
- i'r ysbyty am lai na 84 diwrnod
- dramor am lai na 13 wythnos
- dramor am lai na 26 wythnos i gael triniaeth feddygol am gyflwr a ddechreuodd cyn iddynt adael

## Sut i wneud cais

www.gov.uk/disability-living-allowance-children/how-to-claim

Defnyddiwch y ffurflen gais Lwfans Byw i'r Anabl i wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant o dan 16 oed. Mae'r ffurflen yn dweud wrthych ble i anfon eich cais.

Gallwch archebu ffurflen wedi'i hargraffu drwy ffonio'r llinell gymorth Lwfans Byw i'r Anabl.

### Lwfans Byw i'r Anabl

Ffôn: **0800 121 6379**
Ffôn testun: **0800 121 4523**

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn **www.gov.uk/call-charges**

### Beth sydd angen i chi ei wybod

Gall Lwfans Byw i'r Anabl ond cael ei hawlio ar gyfer plant o dan 16 oed - mae'n rhaid i unrhyw un dros 16 oed wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP).

Gallwch wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plentyn cyn belled ag y byddwch yn gofalu amdanynt fel os byddech yn rhiant

iddynt. Mae 'rhiant' yn cynnwys llysrieni, gwarcheidwaid, neiniau a theidiau, rhieni maeth, a hyd yn oed brodyr neu chwiorydd hŷn.

Ni all Lwfans Byw i'r Anabl gael ei ôl-ddyddio. Bydd dyddiad eich cais fel arfer y dyddiad y mae'r ffurflen yn cael ei derbyn neu'r dyddiad rydych yn ffonio'r llinell ymholiadau (os ydych yn dychwelyd y pecyn cais o fewn 6 wythnos).

Fel arfer, mae'n cymryd 40 diwrnod gwaith i ddelio â chais am Lwfans Byw i'r Anabl.

## Salwch terfynol

Mae rheolau arbennig os nid oes disgwyl i'r plentyn fyw am fwy na 6 mis, er mwyn iddynt gael Lwfans Byw i'r Anabl yn gyflymach. Rhaid i chi:

- cwblhau ffurflen gais Lwfans Byw i'r Anabl
- gofynnwch i feddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall am ffurflen DS1500W - byddant naill ai'n ei llenwi ac yn rhoi'r ffurflen i chi neu'n ei anfon yn uniongyrchol i DWP.

## Pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 16 oed

Bydd angen i'ch plentyn gwneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP) pan maent yn cyrraedd 16 oed. Mae'r budd-dal yn cymryd lle Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer pobl 16 oed i 64.

## Pan fyddant yn gwneud cais am PIP

Bydd eich plentyn yn cael llythyr yn eu gwahodd i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol. Bydd y llythyr yn cael ei anfon:

- yn fuan ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed
- pan fyddant yn gadael yr ysbyty, os oeddent yn yr ysbyty ar eu pen-blwydd yn 16 oed
- tua 20 wythnos cyn y bydd eu dyfarniad Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben, os cawsant ddyfarniad Lwfans Byw i'r Anabl o dan y rheolau ar gyfer pobl sydd â salwch terfynol.

Bydd taliadau DLA eich plentyn yn dod i ben oni bai eu bod yn gwneud cais am PIP erbyn y dyddiad a roddir yn y llythyr.

Os byddant yn gwneud cais erbyn y dyddiad a roddir yn y llythyr, byddant yn parhau i dderbyn DLA hyd nes y caiff eu hawliad ei asesu.